

Atodiad 1

Cyfrifoldebau a Swyddogaethau Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli

Mae Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru hefyd yn Ymddiriedolwyr ac Aelodau. Mae rhai swyddogaethau'r Bwrdd yn perthyn i rolau penodol, fel Ymddiriedolwyr/Cyfarwyddwyr neu Aelodau, a chaiff hyn ei nodi yng nghofnodion y cyfarfodydd Bwrdd.

i. **Aelod Elusen**

Dyma'r meysydd gwaith ar ran y Bwrdd Rheoli sydd yn gyfrifoldeb i'r Cyfarwyddwyr yn eu swyddogaeth fel Aelodau'r elusen.

➔ **Apwyntiadau'r Bwrdd Rheoli**

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Apwyntio Cyfarwyddwyr Newydd
- Estyniadau i Gyfnodau Gwasanaeth Cyfarwyddwyr
- Diswyddo Cyfarwyddwyr
- Ymddeoliadau Cyfarwyddwyr

Darperir gwybodaeth parthed apwyntiadau, estyniadau, diswyddiadau, ac ymddeoliadau o leiaf 4 wythnos cyn cyfarfodydd y Bwrdd Rheoli. Bydd apwyntiadau, estyniadau a diswyddiadau yn destun cadarnhad trwy bleidlais mwyafrif gan y Bwrdd Rheoli.

➔ **Newidiadau a diwygiadau i'r dogfennau llywodraethu**

Mae newidiadau a diwygiadau i Erthyglau Cymdeithasu Llenyddiaeth Cymru yn destun cynnig arbennig ar ran Aelodau'r elusen. Mae cytuno cynnig arbennig yn ddibynnol ar gadarnhad trwy bleidlais gan 75% o holl aelodaeth y Bwrdd Rheoli. Gan fod Cyfarwyddwyr Llenyddiaeth Cymru hefyd yn gwasanaethu fel Aelodau'r elusen mae cytuno cynnig arbennig yn ddibynnol ar gytundeb 75% o'r holl Fwrdd Rheoli.

➔ **Trafodion a Chytundebau rhwng Llenyddiaeth Cymru â Chyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli, Cyflogai, a Phersonau Cysylltiedig**

Gall Llenyddiaeth Cymru gynnig cytundebau i'w Cyfarwyddwyr, Cyflogai, a Phersonau Cysylltiedig i ddarparu gwasanaethau a/neu nwyddau. Rhaid i gytundebau o'r fath fod yn destun asesiad a chytundeb gan aelodau'r Elusen.

Ceir wybodaeth bellach ym mholisiau **Caffael, Taliadau Ymddiriedolwyr a Gwrthdaro Buddiannau** Llenyddiaeth Cymru.

➔ **Traul asedion os diddymir Llenyddiaeth Cymru**

Os diddymir Llenyddiaeth Cymru rhaid i'r Aelodau sicrhau dyraniad ei holl asedion net:

- i wireddu ei Wrthrychau Elusennol yn uniongyrchol; neu
- trwy eu trosglwyddo i elusen neu elusennau am bwrpasau tebyg i Wrthrychau Elusennol Llenyddiaeth Cymru; neu
- trwy eu trosglwyddo i elusen neu elusennau am bwrpasau sydd yn gyson â Gwrthrychau Elusennol llenyddiaeth Cymru.

ii. **Cyfarwyddwyr Elusen**

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli hefyd yn Ymddiriedolwyr yr elusen, a dyma'r grŵp o unigolion sydd yn rheoli, ac sydd â'r cyfrifoldeb cyfreithiol dros, reolaeth a gweinyddiaeth y cwmni a'r elusen.

Mae canllawiau'r Comisiwn Elusennau ([*The Essential Trustee*](#)) yn nodi swyddogaethau Ymddiriedolwyr fel y ganlyn:

- Gwneud yn siŵr bod eich elusen yn cyflawni ei dibenion er budd cyhoeddus
- Cydymffurfio â dogfen lywodraethol eich elusen a'r gyfraith
- Gweithredu er lles gorau eich elusen
- Rheoli adnoddau eich elusen mewn modd cyfrifol
- Gweithredu gyda gofal a sgil rhesymol
- Sicrhau bod eich elusen yn atebol

Mae gofyn i Gyfarwyddwyr cyflawni swyddogaethau Cyfarwyddwyr fel y'u nodir yn y Ddeddf Cwmnïau 2006 (adran 170-177):

- I weithredu o fewn pwerau'r Cwmni
- I hyrwyddo llwyddiant y Cwmni
- I weithredu'n annibynnol
- I weithredu gofal rhesymol, sgil a diwydrwydd
- I osgoi unrhyw wrthdrawiadau buddiannau
- I beidio derbyn unrhyw fuddiannau gan trydydd partïon
- I ddatgan unrhyw fuddion ynghlwm gydag unrhyw drefniant neu gytundeb arfaethedig

Dyma gyfrifoldebau penodol Cyfarwyddwyr:

➤ **Cyfreithiol ac Ariannol**

Rhaid i Gyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli:

- Sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru yn gweithredu'n unol â chyfraith Cwmnïau, cyfraith Elusennau a'r Erthyglau Cymdeithasu. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno datganiadau

blynyddol a datganiadau ariannol i Dŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau a chadw Cofrestrau'r Cwmni.

- Sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru'n cydymffurfio â rheoliadau perthnasol y Comisiwn Elusennol a chyfraith Cwmnïau ac yn dilyn y Còd Llywodraethu i Elusennau.
- Gweithredu trosolwg a rheolaeth ariannol; craffu ar ddatganiadau ariannol chwarterol; trafod a chytuno cyllidebau blynyddol a cytuno ceisiadau cyllid a cynorthwyo i'w paratoi fel yn briodol.
- Sicrhau bod Llenyddiaeth Cymru'n cynnal cofnodion ariannol priodol ac yn paratoi cyfrifon archwiliedig blynyddol.
- Sicrhau bod yr holl drethi sy'n daladwy yn cael eu talu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi.
- Sicrhau bod asedau Llenyddiaeth Cymru wedi'u diogelu ac yn cael eu rheoli'n dda.

➔ **Materion Cyflogaeth ac Adnoddau Dynol**

Mae Bwrdd Rheoli Llenyddiaeth Cymru yn gyfrifol am gyflogaeth ac adnoddau dynol y Sefydliad. Mae'r cyfrifoldeb yn cynnwys:

- Rheoli a datblygu polisiau cyflogaeth Llenyddiaeth Cymru, gan gynnwys cyfleoedd cyfartal, recriwtio, cwynion a disgyblaeth, arfarnu, absenoldeb tymor byr a thymor hir, treuliau a hyfforddiant.
- Goruchwyllo'r broses o recriwtio staff uwch, cytundebau staff, ag unrhyw benderfyniadau sy'n ymwneud â materion diswyddo neu peidio adnewyddu cytundebau.
- Rheolaeth llinell y Prif Weithredwr.

➔ **Eirioli a Chyfathrebu**

Mae Cyfarwyddwyr y Bwrdd Rheoli yn gweithredu fel pencampwyr a chenhadwyr Llenyddiaeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyrwyddo Llenyddiaeth Cymru yn y sector gyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i gryfhau ei broffil a hwyluso codi arian.
- Gweithredu fel hyrwyddwyr brwd dros Llenyddiaeth Cymru ar bob achlysur.
- Mynychu digwyddiadau Llenyddiaeth Cymru a digwyddiadau partneriaid fel pencampwr a llysgenhadon.

- Darparu gwybodaeth ac arbenigedd a allai fod o fudd i Llenyddiaeth Cymru.

Cynghorir yr holl Gyfarwyddwyr i gyfeirio at y dogfennau canlynol am wybodaeth bellach ynglŷn â'u swyddogaethau a chyfrifoldebau fel Ymddiriedolwyr elusen:

- Mae'r ddogfen **Materion ar gadw i'r Bwrdd Rheoli a chyfrifoldebau'r Prif Weithredwr a Chynllun Dirprwyo'r Bwrdd Rheoli** yn cynnig rhagor o fanylion ar gyfrifoldebau'r Bwrdd.
- Mae'r *Essential Trustee*, canllaw y Comisiwn Elusennau, yn cynnig gorolwg o gyfrifoldebau a dyletswyddau Ymddiriedolwyr elusen. Gellir ei weld [yma](#).
- Mae'r Cod Llywodraethu i Elusennau yn cynnig arfer da ac egwyddorion llywodraethu. Gellir ei weld [yma](#).
- Mae'r ddogfen cyngor, **Llywodraethu, cyllid a gwydnwch elusennau: 15 cwestiwn y dylai ymddiriedolwyr eu gofyn** (i'w weld [yma](#)) yn cynnig cyngor ynglŷn â'ch rôl fel Cyfarwyddwr.
- Am fanylion llawn rolau, cyfrifoldebau a phwerau, dylid cyfeirio at y [Ddeddf Elusennau 2011](#), y [Ddeddf Ymddiriedolwyr 2000](#) a'r [Ddeddf Cwmnïau 2006](#).